Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2018 Rhif 18 (Cy. 8)

# TRAFNIDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Traffig Ffyrdd 1988 (Rasio Moduron) (Cymru) 2018

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r cyrff llywodraethu chwaraeon moduron hynny sydd ag awdurdod i ddyroddi trwyddedau o dan adran 12B o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 at ddiben rasio moduron ar briffyrdd cyhoeddus yng Nghymru.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2018 Rhif 18 (Cy. 8)

# TRAFNIDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Traffig Ffyrdd 1988 (Rasio Moduron) (Cymru) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *9 Ionawr 2018* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *12 Ionawr 2018* |
| *Yn dod i rym* | *2 Chwefror 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 12B(6) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Traffig Ffyrdd 1988 (Rasio Moduron) (Cymru) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 02 Chwefror 2018.

**Cyrff llywodraethu chwaraeon moduron sydd ag awdurdod i ddyroddi trwyddedau rasio moduron**

**2.** Y cyrff llywodraethu chwaraeon moduron a bennir at ddiben adran 12B(6) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988, o ran Cymru, yw—

(a) The Royal Automobile Club Motor Sports Association Limited(**2**); a

(b) The Auto-Cycle Union Limited(**3**).

(**1**) 1988 p. 52; mewnosodwyd adran 12B o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 gan adran 73(3) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20) a gafodd ei dwyn i rym ar 10 Mawrth 2017 gan Orchymyn Deddf Dadreoleiddio 2015 (Cychwyn Rhif 7) 2017 (O.S. 2017/273) (C. 24).

(**2**) Cwmni cofrestredig (Cymru a Lloegr) rhif 01344829.

(**3**) Cwmni cofrestredig (Cymru a Lloegr) rhif 00134679.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Ken Skates*
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a
Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru
9 Ionawr 2018